



ADRAN 1: MANYLION SWYDD

Teitl Swydd:	Uwch Ddatblygydd Gwe
Cyfarwyddiaeth:	Casgliadau a Gwasanaethau Digidol
Adran:	Isadeiledd Digidol
Isadran:	Isadran Dylunio a Datblygu'r We
Gradd:	4
Cyflog:	£26,209 - £33,817
Cytundeb:	Parhaol
Yn adrodd i:	Pennaeth Dylunio a Datblygu'r We

Pwrpas cyffredinol y rôl:

Bydd deiliad y swydd yn arwain ar ddatblygu a chynnal ystâd we'r Llyfrgell, yn cynnwys gwefannau data mawr byd-enwog papuraunewydd.llyfrgell.cymru, cylchgronau.llyfrgell.cymru a leoedd.llyfrgell.cymru. Mae'r gwefannau craidd hyn, ynghyd â gwefannau bychain eraill, y brif wefan a'r catalog, yn defnyddio fframweithiau data sefydledig fel [IIIF](#) a thechnolegau fel [Universal Viewer](#) i gyflwyno eitemau digidol i'n miliynau o ddefnyddwyr bob blwyddyn.

Bydd y gwaith yn seiliedig ar safonau rhyngwladol ac arfer gorau mewn codio, dylunio, defnyddioldeb a hygyrchedd.

Bydd deiliad y swydd yn dangos: sylw i fanylion, y gallu i ddehongli gofynion a mynegi syniadau newydd o fewn timau amlddisgyblaethol, sgiliau datblygu rhyngwyneb cryf, profiad cadarn o HTML, CSS, fframweithiau PHP, gweithdrefnau profi a rhyddhau, a goruchwylio cod o ddatblygwyr o fewn eu tîm.

ADRAN 2: Y GYFARWYDDIAETH

Y Gyfarwyddiaeth Casgliadau a Gwasanaethau Digidol sy'n bennaf gyfrifol am gasglu, diogelu a rhoi mynediad i'r casgliadau sydd yng ngofal y Llyfrgell yn unol â'i swyddogaethau craidd. Yn y cyd-destun hwn mae mynediad yn golygu amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys gwasanaethau a gweithgareddau ar y safle, ar-lein ac mewn cymunedau ledled Cymru. Mae gwaith y Gyfarwyddiaeth yn rhan greiddiol o wireddu gweledigaeth y Llyfrgell i fod yn sefydliad sy'n:

"... gwneud gwahaniaeth er gwell i bawb yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol ac i fod yn llyfrgell genedlaethol, agored, blaengar ac arloesol."


Trwy ei gwaith mae angen i'r Gyfarwyddiaeth alluogi'r Llyfrgell i gyflawni ei hamcanion strategol a llesiant sef:

1. Meithrin a gofalu am gof y genedl
2. Gosod sylfaen economi gwybodaeth
3. Bod yn ganolog i fywyd y genedl
4. Grymuso Ymchwil a Dysg

Mae casgliadau'r Llyfrgell yn cynnwys llyfrau, papurau newydd, mapiau, archifau a llawysgrifau, ynghyd â lluniau, ffotograffau, deunydd clywedol, gwefannau a chynnwys digidol o bob math. Ynghyd â'r casgliadau, mae sgiliau

ac arbenigedd staff y Gyfarwyddiaeth hon yn gwbl angenrheidiol er mwyn sicrhau fod y Llyfrgell yn gallu datgloi potensial y casgliadau hyn i gyfoethogi a gwella bywydau pobl Cymru a thu hwnt.

ADRAN 3: SIART TREFNIADOL



ADRAN 4: DYLETSWYDDAU ALLWEDDOL

Y prif ddyletswyddau fydd i arwain ar ddatblygu a chynnal darpariaeth rhyngwynebaw we'r Llyfrgell er mwyn cyflawni Cynlluniau Gweithredol a Strategol y Llyfrgell, yn cynnwys:

1. Datblygu, cynnal ac ehangu rhyngwynebaw craidd data mawr y Llyfrgell er mwyn sicrhau'r profiad orau i ddefnyddwyr;
2. Cynnal a chefnogi'r holl ryngwynebaw mewnol ac allanol sy'n cefnogi busnes dydd i ddydd y Llyfrgell;
3. Cefnogi a datblygu dulliau arloesol o ddatblygu rhyngwynebaw gwe fel rhan o dimau Agile amlddisgyblaethol;
4. Glynw at safonau rhyddhau, profi a diogelwch modern, ac arwain ar arferion gorau, gan gynnwys defnyddioldeb a hygrychedd;
5. Arwain ar oruchwylio cod fel rhan o raglennu ar-y-cyd, a chymeradwyo rhyddhau cod o fewn yr Isadran;
6. Creu a gwirio dogfennau am ryngwynebaw a gweithdrefnau a ddatblygwyd;
7. Dirprwyo i Bennaeth Dylunio a Datblygu'r We mewn grwpiau a phwyllgorau mewnol ac allanol yn ôl yr angen;
8. Datblygu gwybodaeth o waith y Llyfrgell;

9. Ymgymryd ag unrhyw waith arall a ystyrir yn addas i swydd ar y radd hon;

10. Dealltwriaeth gyffredinol o'r deddfwriaethau "Gwarchod Data" a "Rhyddid Gwybodaeth".

Darperir y Disgrifiad Swydd hwn er mwyn rhoi amlinelliad bras i ddeiliad y swydd o'r gweithgareddau sydd ymhlyg yn y rôl hon. Dichon y bydd y Llyfrgell am i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill nad ydynt o angenrheidrwydd wedi eu cynnwys yn y Disgrifiad Swydd ond sydd yn gymesur â graddfa'r swydd. Gellir diwygio'r Disgrifiad Swydd o bryd i'w gilydd o fewn i ffin a lefel y cyfrifoldeb sy'n berthnasol i'r swydd hon.

ADRAN 5: CYFRIFOLDEB

Cyfrifoldeb dros bobl: Mae'r swydd hon yn uniongyrchol gyfrifol am Ddatblygwr Gwe B3, gan gynnwys cyfrifoldebau ar gyfer goruchwylio codebase a chymeradwyo cynhyrchion a ddatblygwyd a'r rhai ar gontractau prosiect allanol.

Mae'r Uwch-ddatblygwr Gwe yn gyfrifol am sicrhau diogelwch a safonau cynhyrchion gwe'r Llyfrgell.

Cyfrifoldeb am reoli cyllideb: Nid oes gan y swydd hon gyfrifoldeb dros reoli arian.

ADRAN 6: CYSYLLTIADAU AG ERAILL

Mewnol: Staff Isadran Dylunio a Datblygu'r We

Natur y Cyswllt: Goruchwyliaeth ddyddiol a chymeradwyaeth cod a gynhyrchir, darparu cyngor a defnyddio arbenigedd i ddatrys problemau er mwyn sicrhau parhad y safonau datblygu.

Mewnol: Staff Prosiectau a Rheolwyr Isadran

Natur y Cyswllt: Cyfnewid data a gwybodaeth yn ddyddiol ynglŷn â disgwyliadau swyddogaethau rhyngwyneb a system, gan gynnwys derbyn adborth.

Mewnol: Isadran Gweithredoedd

Natur y Cyswllt: Paratoi dogfennau gweithredol, gan dderbyn adroddiadau nam, cysylltu am newidiadau a wnaed i isadeiledd y we a systemau darparu a chynnig datrysiadau i broblemau a gafwyd wrth gyflwyno gwasanaethau. Cynorthwyo i ddarparu arweiniad a chymorth technegol ar gyfer systemau mewnol pwrpasol ac yn darparu atebion ar gyfer ymholiadau sy'n gysylltiedig â gwe allanol ar sail unwaith ac wythnosol.

Mewnol: Tîmoedd Prosiect

Natur y Cyswllt: Cymryd rhan yn llawn fel aelod ym mhob seremoni tîm Agile ac arwain ar ymarfer gorau.

Allanol: Cwmnïau Meddalwedd a Datblygwyr

Natur y cysylltiad: Cydweithio gyda chyd-ddatblygwyr (ee Syllwr Casgliadau) naill ai y telir amdano neu ei rannu i'r gymuned, yn ddyddiol neu yn wythnosol yn ystod cylchoedd datblygu penodol.

Allanol: Prosiectau Allanol

Natur y cysylltiad: Darparu isadeiledd, pensaernïaeth a chanllawiau ar y rhyngwynebau prosiect ac integreiddio data ar waith.

Allanol: Cymunedau perthnasol a chyflenwyr trydydd parti

Natur y Cysylltiad: Am gefnogaeth, arweiniad a chynghor integreiddio.

ADRAN 7: DATRYS PROBLEMAU

Fel arbenigwr ym maes Datblygu Gwe, bydd gofyn i'r swydd reoli, nodi camau i ddatrys yr holl broblemau technegol sy'n codi ar brosiectau, tasgau a phroblemau a nodwyd, ac o brosiectau a chod a roddir i ddatblygwyr gwe iau. Pan fo angen, trafod ag uwch aelodau eraill o'r Isadran Dylunio a Datblygu'r We i gynorthwyo i ddatrys problemau mewn meysydd arbenigol cysylltiedig, ond anaml y bydd angen cyfeirio at y rheolwr llinell am ganllawiau ar benderfyniadau codio.

ADRAN 8: PENDERFYNU

Penderfynu ar flaenoriaethau uniongyrchol yn dilyn cyfarwyddyd gan Bennaeth Dylunio a Datblygu'r We ac mewn cydweithrediad â staff eraill ar brosiect neu yn yr Adran Isadeiledd Digidol.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd wneud penderfyniadau perthnasol eraill a fydd yn angenrheidiol i gynnal ei waith.

ADRAN 9: MANYLEB PERSON

PRIODOLEDD	HANFODOL	DYMUNOL
Gwybodaeth / Addysg	<ul style="list-style-type: none">Gwybodaeth gymhwysol helaeth o HTML a fframweithiau CSS (ee Bootstrap);Gwybodaeth weithredol o fframweithiau PHP (OO o ddewis);Datblygu rhaglenni gwe gyfoethog gyda Javascript;Integreiddio ffynonellau data (ee SQL a SolR)Dangos gallu i greu ac addasu gosodiadau cynllun a modelau ffrâm wifren ar gyfer darparu traws- blatfform;Gweithio gyda systemau rheoli fersiynau ac adolygu meddalwedd fel git / svn;Gwybodaeth weithredol o ddefnyddio modelau a safonau defnyddioldeb a mynediad i'r we ac ymwybyddiaeth gref o ryngwynebau dwyieithog;Gallu i lunio dogfennau technegol a rhai ar gyfer defnyddwyr;Sgiliau trefnu a chynllunio gwyd; Gallu i weithio ar eich liwt eich hun ac fel rhan o dimau amlddisgyblaethol;Gallu i flaenoriaethu nifer o dasgau a bodloni terfynau amser;Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol gwyd, gan gynnwys y gallu i gyfathrebu'n effeithiol, yn llafar ac yn ysgrifenedig, yn Saesneg.	<ul style="list-style-type: none">Gwybodaeth ymarferol o fframweithiau Agile;Y gallu i gyfathrebu ar lafar yn y Gymraeg.
Profiad	<ul style="list-style-type: none">Gradd dda mewn pwnc perthnasol neu gymhwyster proffesiynol mewn datblygu rhaglenni i'r we a phrofiad o weithio yn datblygu'r we ar lefel broffesiynolProfiad o ddatblygu rhaglenni i'r we a rhyngwynebau i safonau llym y we, gweithio gyda darparwyr cynnwys ac integreiddio data o amrywiaeth o ffynonellau.	<ul style="list-style-type: none">Rheoli neu oruchwyliaeth codio;Profiad o weithio fel rhan o dîm Agile.

